# Rhaglen Gwirfoddolwyr

## Hydref 2019 i Fawrth 2020

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych ac
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd
a Dyffryn Dyfrdwy



Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

# Croeso



**Mae yna ystod o gyfleoedd i chi gymryd rhan yng ngwaith Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy - ac mae arnom angen eich help!**

O’r Rhyl a Phrestatyn yn y gogledd, ar hyd Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i Hiraethog yn y gorllewin, gallwch ymuno a ni pob yn dipyn neu bob wythnos, eich dewis chi.

Bydd tasgau’n amrywio o blannu coed i godi waliau cerrig sychion, adeiladu llwybrau i greu cynefinoedd bywyd gwyllt. Nid oes angen profiad blaenorol - fe roddir hyfforddiant ac mae croeso i chi weithio’n ôl eich cyflymder eich hun.

denbighshirecountryside.org.uk
clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk
denbighshirevolunteers.co.uk



## Gardd yr Arglwydd

**Pob dydd Llun**
(heblaw 23 a 30 Rhagfyr)
**11am – 3pm**
(croeso ichi alw heibio unrhyw dro)

Os ydych yn caru gerddi ac os hoffech helpu yng ngerddi hanesyddol Nantclwyd y Dre, Rhuthun, hoffem glywed gennych! Croeso i bob gallu.

**Cysylltwch â ni ar 01824 706868 neu anfonwch e-bost ar heritage@denbighshire.gov.uk Cwrdd yn Nantclwyd y Dre, LL15 1DP.**

@Nantclwyd @YNantclwyd

I gael hwn mewn fersiynau Braille, print mawr neu dâp ffoniwch am ddim ar 0800 243980

I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â:

Parc Gwledig Loggerheads
01824 712 757
Gogledd Sir Ddinbych (Y Rhyl)
01824 708 313
De Sir Ddinbych (Llangollen)
01824 712 795

**Chwiliwch amdanom ar y cyfryngau cymdeithasol**

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

@Clwyd_Dee_AONB
@DenbshireCside

### Cyngor Iechyd a Diogelwch

Fe wnaiff y Gwasanaeth Cefn Gwlad ddarparu'r holl ddillad diogelwch sy'n angenrheidiol. Cofiwch wisgo esgidiau cryfion efo gafael da arnyn nhw, cymeradwyir esgidiau mawr efo trwynau esgid dur ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi. Dewch â dillad rhag glaw efo chi a chinio pecyn. Mae'n rhaid i rai dan 14 oed fod gyda rhiant/gwarcheidwad. Yn anffodus ni allwn weithio efo plant sydd o dan 8 oed.

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council
Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Clwydian Range and Dee Valley

# HYDREF





**Dydd Mercher 2il - 10am – 3pm**
**Y Gop (Trelawnyd) – clirio safle**

Helpu i symud llystyfiant sydd wedi gordyfu a phrysgoed o amgylch yr Heneb Gofrestredig. Cyfarfod yn y maes parcio ar y Stryd Fawr, Trelawnyd. (SJ090798)

**Dydd Mercher 2il - 10am – 3pm**
**Moel Famau - Rheolaeth Rhostiroedd**

Helpu i dynnu conwydd newydd o'r rhostir. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (pen uchaf). (SJ 162 606)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Mawrth 8fed 10am – 3pm**
**Atgyweiriadau yn y Loggerheads**

Helpu gydag atgyweiriadau ar y safle ar ôl tymor yr haf. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

**Dydd Mawrth 8fed 10am – 1pm**
**Plas Newydd, Llangollen – Hyfforddiant Garddwriaethol**

Dewch i ddysgu sut i blannu coed mawr fel rhan o rodfa bedwen newydd yn yr ardd hanesyddol hon gyda Phrif Arddwr Plas Newydd. Cyfarfod ym Mhlas Newydd, LL20 8AW.

**Dydd Mercher 9fed - 10am – 3pm**
**Rhostir Iach**

Gwaith rheoli i dynnu coed bedw a glasbrennau sy'n bygwth y brithwaith anghyffredin o blanhigion rhostir sy'n rhoi i Foel Findeg ei gymeriad unigryw. Cyfarfod rhwng pentref Maeshafn a'r Hen Hostel Ieuenctid. (SJ 205 608)

**Dydd Mercher 9fed - 10am – 3pm**
**Prestatyn - Plygu Perthi**

Mae plygu gwrychoedd yn sgil bwysig yn y broses o adfywio gwrychoedd ac annog tyfiant newydd o fôn y gwrych. Dewch i helpu i blygu darn o wrych yn y Warchodfa Natur leol.
Cyfarfod: Ffordd Parc Bodnant, Prestatyn, mynedfa i'r caeau chwarae, LL19 9LJ.

**Dydd Mawrth 15fed 10am – 3pm Prysgoedio ym Mharc Gwledig Loggerheads**

Dewch i roi help llaw gyda'r dechneg rheoli coetiroedd draddodiadol a phwysig hon, a fydd yn cynyddu bioamrywiaeth o fewn y coetir yn Loggerheads. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

**Dydd Mercher 16, 10am - 3pm Gwelliannau i Lwybr Moel Famau**

Helpwch ni i wella'r llwybrau sydd wedi cael llawer o ddefnydd o amgylch y Parc Gwledig. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (pen uchaf). (SJ 162 606)

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

**Dydd Mercher, 16, dydd Iau 17 a dydd Gwener 18 10am – 4pm Hyfforddiant Codi Waliau Sych yn Y Dell, Plas Newydd, Llangollen**

Ennill sgiliau newydd tra'n helpu i atgyweirio'r wal gerrig sych yn yr ardd hanesyddol hon gyda hyfforddwr profiadol. Cyfarfod ym Mhlas Newydd, LL20 8AW.

**Dydd Mawrth 22ain  10am – 3pm Prysgoedio ym Mharc Gwledig Loggerheads**

Dewch i roi help llaw gyda'r dechneg rheoli coetiroedd draddodiadol a phwysig hon, a fydd yn cynyddu bioamrywiaeth o fewn y coetir yn Loggerheads. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

**Dydd Mercher 23ain - 10am – 3pm Rhostir Iach**

Gwaith rheoli i dynnu coed bedw a glasbrennau sy'n bygwth y brithwaith anghyffredin o blanhigion rhostir sy'n rhoi i Foel Findeg ei gymeriad unigryw. Cyfarfod rhwng pentref Maeshafn a'r Hen Hostel Ieuenctid. (SJ 205 608)

**Dydd Mercher 23 a Dydd Iau 24, 10am - 3pm. Walio Cerrig Sych - Bwlch Yr Oernant, Llangollen**

Dewch i helpu i adfer rhan o wal derfyn sydd wedi dod i lawr, a dysgu am y sgil draddodiadol gan hyfforddwr profiadol.  Cyfarfod yn y gilfan ar dop Bwlch yr Oernant, draws y ffordd i gaffi Ponderosa. (SJ 192 480)



**Dydd Mercher 23ain, 10am – 3pm**
**Y Gop (Trelawnyd) – clirio safle**
Helpu i symud llystyfiant sydd wedi gordyfu a sgrwbio o amgylch yr Heneb Gofrestredig. Cyfarfod yn y maes parcio ar y Stryd Fawr, Trelawnyd. (SJ090798)

**Dydd Gwener 25ain, 10am – 3pm**
**Pencoed – Rheoli Llannerch Coetir**
Helpwch i wella bioamrywiaeth coetir drwy blannu blodau coetir brodorol, prysgoedio, a thocio coed presennol. Cyfarfod ym mynedfa Bryn Stanley i Bencoed, Dinbych (SJ 047 658)

**Dydd Sadwrn 26ain - 10am – 3pm**
**Rhandiroedd Uwch y Dre – Walio Cerrig Sych**
Dysgwch am y sgil draddodiadol hon gan hyfforddwr profiadol a helpwch ni i adfer yr hen wal gerrig sych sy'n rhedeg hyd y safle hwn.
Cwrdd yn Rhandiroedd Uwch y Dre.
(SJ 07120 43145)

**Dydd Mawrth 29ain 10am – 3pm**
**Coedlannu'r gwlyptir**
Dewch i helpu i goedlannu coed helyg i agor gwlyptir pwysig a thynnu prysgwydd ar y glaswelltir cyfagos.
Mae esgidiau glaw yn hanfodol!
Cwrdd yn Hen Ardd, Eryrys.
(SJ 204 578)



**Dydd Mawrth 29ain 10am – 3pm**
**Plannu! Cynnal a chadw prosiect**
Helpwch ni i reoli'r llystyfiant o amgylch y coed sydd newydd gael eu plannu yng Nglan Morfa, rhan o'r Prosiect Plannu! cenedlaethol..
Cyfarfod ym maes parcio Traciau'r Gors, Marsh Road, y Rhyl LL18 2AD.

**Dydd Mercher 30ain - 10am – 3pm**
**Rheolaeth Rhostiroedd Moel Famau**
Helpu i dynnu conwydd newydd o'r rhostir. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (pen uchaf).
(SJ 162 606)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Mercher 30ain - 10am – 3pm**
**Y Gop (Trelawnyd) – clirio safle**
Helpu i symud llystyfiant sydd wedi gordyfu a phrysgoed o amgylch yr Heneb Gofrestredig. Cyfarfod yn y maes parcio ar y Stryd Fawr, Trelawnyd. (SJ090798)

# TACHWEDD



**Dydd Mawrth 5ed 10am – 3pm**
**Nercwys – Gwella'r golygfeydd**

Helpu i dynnu coed conwydd o amgylch y pwynt trig yng Nghoed Nercwys er mwyn adfer y golygfeydd godidog.  Cyfarfod ym maes parcio gogleddol Coed Nercwys.
(SJ 218 593)

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales



**Dydd Mawrth 5ed, Dydd Mercher 6ed a dydd Iau 7fed 10am - 4pm**
**Hyfforddiant Codi Waliau Sych yn Y Dell, Plas Newydd, Llangollen**

Ennill sgiliau newydd tra'n helpu i atgyweirio'r wal gerrig sych yn yr ardd hanesyddol hon gyda hyfforddwr profiadol. Cyfarfod ym Mhlas Newydd, LL20 8AW.

**Dydd Mercher 6, 10am – 3pm**
**Prestatyn – Plygu Gwrychoedd**

Mae plygu gwrychoedd yn sgil bwysig yn y broses o adfywio gwrychoedd ac annog tyfiant newydd o fôn y gwrych. Dewch i helpu i blygu darn o wrych yn y Warchodfa Natur leol. Cwrdd yn Ffordd Parc Bodnant, Prestatyn, mynedfa i'r caeau chwarae, LL19 9LJ.

**Dydd Mercher 6, 10am – 3pm**
**Glanhau Pwll Moel Famau**

Helpwch i gael gwared ar lystyfiant sy'n meddiannu Pwll Fenlli er mwyn ei wella ar gyfer bywyd gwyllt. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (pen uchaf). (SJ 162 606)

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

**Dydd Mawrth 12, 10am – 3pm**
**Clirio prysgwydd**

Dewch i helpu i glirio prysgwydd er mwyn gwella'r glaswelltir calchfaen rhyngwladol bwysig hwn. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

**Dydd Mercher 13 10am – 3pm**
**Rheolaeth Rhostiroedd Moel Famau**

Helpu i dynnu conwydd newydd o'r rhostir. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (pen uchaf).
(SJ 162 606)

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

**Dydd Mercher 13 10am – 3pm**
**Llechwedd Prestatyn - cynnal a chadw safle**

Clirio prysgwydd ar laswelltir calchfaen a chynnal a chadw'r safle yn gyffredinol.  Cyfarfod yn y maes parcio islaw Gerddi Hillside. (SJ071821)

**Dydd Mawrth 19, 10am – 3pm**
**Ardal Natur Llangwyfan**

Ymunwch â ni i wella'r coetir a thynnu prysgwydd o'r heneb gofrestredig. Cyfarfod yn y maes parcio uchaf, Coed Llangwyfan ar y ffordd rhwng Llangwyfan a Nannerch. (SJ 139 668)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Mercher 20 10am – 3pm**
**Rhostir Iach**

Gwaith rheoli i dynnu coed bedw a glasbrennau sy'n bygwth y brithwaith anghyffredin o blanhigion rhostir sy'n rhoi i Foel Findeg ei gymeriad unigryw. Cyfarfod rhwng pentref Maeshafn a'r Hen Hostel Ieuenctid. (SJ 205 608)

**Dydd Mercher 20 10am – 3pm**
**Bryniau Prestatyn**

Datgelu ac atgyweirio wal o amgylch Bwthyn Pant-y-Fachwen a chlirio prysgwydd/tocion. Cyfarfod yn y maes parcio islaw Gerddi Hillside. (SJ071821)





### Dydd Iau 21, 10am - 3pm
### Plygu Gwrychoedd – Stamp, Corwen

Dewch i ddysgu'r sgil draddodiadol hon wrth i ni osod gwrych o amgylch dolydd bywyd gwyllt, ger Eglwys hanesyddol Llangar. Cyfle da i ymarfer cyn cystadleuaeth mis nesaf! Cyfarfod yng nghilfan Stamp.
(SJ 064 422)

### Dydd Mawrth 26, 10am – 3pm
### Loggerheads - Prysgoedio

Dewch i roi help llaw gyda'r dechneg rheoli coetiroedd draddodiadol a phwysig hon, a fydd yn cynyddu bioamrywiaeth o fewn y coetir yn Loggerheads. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

### Dydd Mercher 27, 10am – 3pm
### Rheolaeth Rhostiroedd Moel Famau

Helpu i dynnu conwydd newydd o'r rhostir. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (pen uchaf).
(SJ 162 606)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

### Dydd Mercher 27ain 10:00am - 3:00pm. Prestatyn – Plygu Gwrych

Mae plygu gwrychoedd yn sgil bwysig yn y broses o adfywio gwrychoedd ac annog tyfiant newydd o fôn y gwrych. Dewch i helpu i blygu darn o wrych yn y Warchodfa Natur leol. Cwrdd yn Ffordd Parc Bodnant, Prestatyn, mynedfa i'r caeau chwarae,
LL19 9LJ.

### Dydd Iau 28, 10am - 3pm
### Gwaith coetir yng Nghoed y Morfa

Gwaith coetir yng Nghoed y Morfa
Ymunwch â ni ar gyfer ochr-docio a phrysgoedio yng Nghoed y Morfa. Cyfarfod ym maes parcio Coed y Morfa, Lôn Goed, Prestatyn,
LL19 8ED.



# RHAGFYR





**Dydd Llun 2il - 10am - 3pm**
**Gwneud Torchau Traddodiadol – Coetir Cymunedol Parc Bruton**
Helpu i dorri llystyfiant a defnyddio addurniadau i wneud eich torch Nadolig eich hun i'w haddurno i fynd adref! Cwrdd yng Nghoetir Cymunedol Parc Bruton. Cwrdd ym mynedfa Parc Bruton wrth ymyl y safle bws a'r cylch troi, y Rhyl, LL18 4SZ.

**Dydd Mercher 4ydd 9.30 – 3.30pm**
**Cystadleuaeth Plygu Gwrych Blynyddol**
Mae plygu gwrychoedd yn sgil bwysig yn y broses o adfywio gwrychoedd ac annog tyfiant newydd o fôn y gwrych. Beirniadir y grefft o blygu gwrychoedd yn y pencampwriaethau sirol. Dewch draw fel rhan o dîm o ddau i'r digwyddiad hwyliog a chynhyrchiol hwn, sy'n digwydd eleni am y chweched tro. Mae croeso mawr i ddechreuwyr gan y bydd tiwtor wrth law, ac mae angen digon o help llaw wrth borthi'r goelcerth, hefyd! Lleoliad: I'w gadarnhau.

**Dydd Mawrth 10fed - 10am-3pm**
**Prysgoedio ym Mharc Gwledig Loggerheads**
Dewch i roi help llaw gyda'r dechneg rheoli coetiroedd draddodiadol a phwysig hon, a fydd yn cynyddu bioamrywiaeth o fewn y coetir yn Loggerheads. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

**Dydd Mawrth 10fed a Dydd Mercher 11eg - 10am – 3pm**
**Glan Morfa – Plannu Coed**
Plannu coed fel rhan o'r ardaloedd creu coetiroedd newydd yng Nglan Morfa. Byddwn yn plannu coed cynhenid o faint da i dyllau sydd wedi eu paratoi yn barod – byddai'n anodd gofyn am fwy! Cyfarfod ym maes parcio Glan Morfa, Y Rhyl, LL18 2AD.

**Dydd Mercher 11, 10am – 3pm**
**Moel Famau - Rheolaeth Rhostiroedd**
Helpu i dynnu conwydd newydd o'r rhostir. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (pen uchaf). (SJ 162 606)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales





**Dydd Iau 12, 10am - 3pm**
**Canhwyllau Swedaidd – Pen y Pigyn, Corwen.**

Helpwch ni i adfer y coetiroedd Derw hynafol hyn drwy symud Cegid y Gorllewin ymledol. Yna drwy ddefnyddio’r boncyffion, byddwn yn gwneud canhwyllau Swedaidd i chi fynd adref.  Cyfarfod yn y prif faes parcio, Corwen LL21 0DN.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Llun 16eg 10am - 3pm**
**Clirio prysgwydd a choelcerth y Nadolig**

Clirio dros yr ŵyl ym Mharc Bruton. Helpwch ni i glirio a thorri llystyfiant ar gyfer coelcerth, gyda siocled poeth neu win cynnes heb alcohol a malws melys wedi eu tostio i ddilyn! Cwrdd yng Nghoetir Cymunedol Parc Bruton, y Rhyl. Cwrdd ym mynedfa Parc Bruton wrth ymyl y safle bws a’r cylch troi, y Rhyl, LL18 4SZ.

**Dydd Mawrth 17 10am – 3pm**
**Clirio dros y Nadolig yn Loggerheads**

Dewch i helpu i dacluso'r Parc ar gyfer tymor y Nadolig drwy wneud rhywfaint o waith cynnal a chadw hanfodol ar y llwybrau cerdded poblogaidd. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

**Dydd Mercher 18 10am – 3pm**
**Coelcerth Nadolig**

Dewch i helpu i glirio prysgwydd oddi ar y rhostir, coelcerth Nadolig i ddathlu tasg olaf y flwyddyn. Cyfarfod rhwng pentref Maeshafn a’r Hen Hostel Ieuenctid. (SJ 205 608)

**Dydd Mercher 18 10am – 3pm**
**Bryniau Prestatyn**

Tacluso’r maes parcio a’r ardal gyfagos a thocio llwyni a choed bach ar gyfer hygyrchedd.  Cyfarfod yn y maes parcio islaw Gerddi Hillside. (SJ071821)

# IONAWR



**Dydd Mawrth 7fed - 10am – 3pm**
**Prysgoedio ym Mharc Gwledig Loggerheads**

Dewch i roi help llaw gyda'r dechneg rheoli coetiroedd draddodiadol a phwysig hon, a fydd yn cynyddu bioamrywiaeth o fewn y coetir yn Loggerheads. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.



**Dydd Mercher 8fed 10am – 3pm**
**Rhostir Iach**

Gwaith rheoli i dynnu coed bedw a glasbrennau sy'n bygwth y brithwaith anghyffredin o blanhigion rhostir sy'n rhoi i Foel Findeg ei gymeriad unigryw. Cyfarfod rhwng pentref Maeshafn a'r Hen Hostel Ieuenctid. (SJ 205 608)

**Dydd Mercher 8 10am – 3pm**
**Coed Bell**

Ymunwch â ni i glirio rhedyn a mieri er mwyn i glychau'r gog ffynnu'r flwyddyn nesaf a gwella bioamrywiaeth yn y coetir bendigedig hwn. Cwrdd yn y maes parcio bach (ar hyd y ffordd o'r Fynwent) ar Ffordd Gronant. (SJ085833)

**Dydd Llun 13eg 10am - 3pm**
**Plygu Gwrych – Coetir Cymunedol Parc Bruton**

Ymunwch â ni ym Mharc Bruton ar gyfer plygu gwrych.  Ffordd wych i wella bioamrywiaeth!
Cwrdd yng Nghoetir Cymunedol Parc Bruton, y Rhyl. Cwrdd ym mynedfa Parc Bruton wrth ymyl y safle bws a'r cylch troi, y Rhyl, LL18 4SZ.

**Dydd Mawrth 14 10am – 3pm**
**Coed Nercwys – Clirio Pwll Dŵr**

Helpu i deneuo'r coed helyg er mwyn codi'r dŵr yn y pwll.  Cyfarfod ym maes parcio gogleddol Coed Nercwys. (SJ 218 593)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales





**Dydd Mercher 15 10am – 3pm**
**Rheolaeth Rhostiroedd Moel Famau**

Helpu i dynnu conwydd newydd o’r rhostir. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (pen uchaf).
(SJ 162 606)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Iau 16, 10am - 3pm**
**Gwaith coetir yng Nghoed y Morfa**

Ymunwch â ni ar gyfer ochr-docio a phrysgoedio yng Nghoed y Morfa. Cyfarfod ym maes parcio Coed y Morfa, Lôn Goed, Prestatyn, LL19 8ED.

**Dydd Iau 16, 10am - 3pm**
**Cynnal a chadw yng Ngro Isa, Corwen**

Helpwch ni i atgyweirio’r ffens llechi hanesyddol ac adfer y perthi drwy frysgoedio a phlannu. Cyfarfod yn y prif faes parcio, Corwen LL21 0DN.

**Dydd Mawrth 21, 10am – 3pm**
**Prysgoedio ym Mharc Gwledig Loggerheads**

Dewch i roi help llaw gyda'r dechneg rheoli coetiroedd draddodiadol a phwysig hon, a fydd yn cynyddu bioamrywiaeth o fewn y coetir yn Loggerheads. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

**Dydd Mercher 22 10am – 3pm**
**Rhostir Iach**

Gwaith rheoli i dynnu coed bedw a glasbrennau sy'n bygwth y brithwaith anghyffredin o blanhigion rhostir sy'n rhoi i Foel Findeg ei gymeriad unigryw. Cyfarfod rhwng pentref Maeshafn a'r Hen Hostel Ieuenctid. (SJ 205 608)

**Dydd Mercher 22 10am – 3pm**
**Coed Bell**

Ymunwch â ni i glirio rhedyn a mieri er mwyn i glychau'r gog ffynnu'r flwyddyn nesaf a gwella bioamrywiaeth yn y coetir bendigedig hwn. Cwrdd yn y maes parcio bach (ar hyd y ffordd o'r Fynwent) ar Ffordd Gronant, Gronant (SJ085833).



**Dydd Mawrth 28 10am – 3pm**
**Teneuo coetir**

Ymunwch â ni i deneuo rhywfaint o'r coetir. Cyfarfod yn y maes parcio uchaf, Coed Llangwyfan ar y ffordd rhwng Llangwyfan a Nannerch. (SJ 139 668)



**Dydd Mercher 29 10am – 3pm**
**Rhostir Iach**

Gwaith rheoli i dynnu coed bedw a glasbrennau sy'n bygwth y brithwaith anghyffredin o blanhigion rhostir sy'n rhoi i Foel Findeg ei gymeriad unigryw. Cyfarfod rhwng pentref Maeshafn a'r Hen Hostel Ieuenctid. (SJ 205 608)

**Dydd Gwener 31, 10am – 3pm**
**Pencoed – Ffens perllan cymunedol ac adeiladu giât**

Rhowch gynnig ar sgiliau gwaith coed traddodiadol. Helpwch i adeiladu giât ffrâm coed a ffens fforchog yn defnyddio deunydd o'r coetir cyfagos. Cyfarfod: Mynedfa Bryn Stanley i Bencoed, Dinbych. (SJ 047 658)

# CHWEFROR



**Dydd Mawrth 4, 10am – 3pm**
**Llanelwy – Madfall y Dŵr**

Digwyddiad ar y cyd gyda'r tîm Bioamrywiaeth. Dewch i helpu gyda gwelliannau cynefin hanfodol mewn ardal pwll dŵr ar gyfer Madfall y Dŵr, mae yna ddigon o waith i'w wneud. Meet at Bryn Gobaith – Ardal Chwarae Holy Court, Llanelwy, LL17 0DR.

**Dydd Mawrth 4, 10am – 3pm**
**Prysgoedio ym Mharc Gwledig Loggerheads**

Dewch i roi help llaw gyda'r dechneg rheoli coetiroedd draddodiadol a phwysig hon, a fydd yn cynyddu bioamrywiaeth o fewn y coetir yn Loggerheads. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.



**Dydd Mercher 5, 10am – 3pm**
**Llanelwy – Madfall y Dŵr**

Digwyddiad ar y cyd gyda'r tîm Bioamrywiaeth. Dewch i helpu gyda gwelliannau cynefin hanfodol mewn ardal pwll dŵr ar gyfer Madfall y Dŵr, mae yna ddigon o waith i'w wneud. Meet at Bryn Gobaith – Ardal Chwarae Holy Court, Llanelwy, LL17 0DR.



**Dydd Mercher 5, 10am – 3pm**
**Gardd Goed Moel Famau**

Helpwch ni i deuneuo coed o'r rhan hon o'r coetir.  Cyfarfod ym maes parcio Coed Moel Famau. (SJ 174 613)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Mercher 5, 10am – 3pm**
**Dadorchuddio'r gorffennol yng Nghoed Bell**

Ymunwch â ni i glirio rhedyn ac eithin o amgylch yr Heneb Gofrestredig ar ben Coed Bell i'w hen ogoniant. Cwrdd yn y maes parcio bach (ar hyd y ffordd o'r Fynwent) ar Ffordd Gronant, Gronant. (SJ085833)



**Dydd Llun 10fed 10am - 3pm**
**Meinciau ar gyfer Bruton**

Gwneud meinciau. Rhowch rywle i'n hymwelwyr roi eu traed i fyny. Helpwch ni i wneud meinciau newydd i fynd allan ar y safle. Cwrdd yng Nghoetir Cymunedol Parc Bruton. Cwrdd ym mynedfa Parc Bruton wrth ymyl y safle bws a'r cylch troi, y Rhyl, LL18 4SZ.

**Dydd Mawrth 11eg, 10am – 3pm**
**Coed Alex**

Mae angen help i deneuo'r coetir. Bydd tatws trwy'u crwyn yn cael eu coginio ar y tân i'n cadw'n gynnes. Cyfarfod yn y maes parcio uchaf, Coed Llangwyfan ar y ffordd rhwng Llangwyfan a Nannerch.
(SJ 139 668)

**Dydd Mercher 12fed - 10am – 3pm**
**Rhostir Iach**

Gwaith rheoli i dynnu coed bedw a glasbrennau sy'n bygwth y brithwaith anghyffredin o blanhigion rhostir sy'n rhoi i Foel Findeg ei gymeriad unigryw. Cyfarfod rhwng pentref Maeshafn a'r Hen Hostel Ieuenctid.
(SJ 205 608)

**Dydd Mawrth 18fed, 10am – 3pm**
**Rheoli Glaswelltir Loggerheads**

Helpwch ni i dynnu prysgwydd oddi ar ein glaswelltir calchfaen o bwysigrwydd rhyngwladol. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

**Dydd Mercher 19eg - 10am – 3pm**
**Rheolaeth Rhostiroedd Moel Famau**

Helpu i dynnu conwydd newydd o'r rhostir. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (pen uchaf).
(SJ 162 606)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Mercher 19eg 10am – 3pm**
**Dadorchuddio'r gorffennol yng Nghoed Bell**

Ymunwch â ni i glirio rhedyn ac eithin o amgylch yr Heneb Gofrestredig ar ben Coed Bell i'w hen ogoniant. Cwrdd yn y maes parcio bach (ar hyd y ffordd o'r Fynwent) ar Ffordd Gronant, Gronant. (SJ085833)

**Dydd Llun 24ain - 10am-3pm**
**Cynnal a Chadw Pwll y Brickfield**

Byddwn yn paratoi'r safle ar gyfer y gwanwyn, gan gynnwys clirio golygfannau a thorri llystyfiant. Cwrdd ym maes parcio Pwll y Brickfield, Ffordd Derwen, y Rhyl, LL18 2RN.

**Dydd Mawrth 25, 10am – 3pm**
**Ardal Natur Llangwyfan**

Ymunwch â ni i wella'r coetir a thynnu prysgwydd o'r heneb gofrestredig. Cyfarfod yn y maes parcio uchaf, Coed Llangwyfan ar y ffordd rhwng Llangwyfan a Nannerch. (SJ 139 668)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Mercher 26ain - 10am – 3pm**
**Rheolaeth Rhostiroedd Moel Famau**

Helpu i dynnu conwydd newydd o'r rhostir. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (pen uchaf). (SJ 162 606)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Mercher 26 a Dydd Iau 27, 10am - 3pm**
**Walio Cerrig Sych - Bwlch Yr Oernant, Llangollen**

Dewch i helpu i adfer rhan o wal derfyn sydd wedi dod i lawr, a dysgu am y sgil draddodiadol gan hyfforddwr profiadol.  Cyfarfod yn y gilfan ar dop Bwlch yr Oernant, draws y ffordd i gaffi Ponderosa. (SJ 192 480)



# MAWRTH



**Dydd Mawrth 3 10am – 3pm**
**Loggerheads - Prysgoedio**
Dewch i roi help llaw gyda'r dechneg rheoli coetiroedd draddodiadol a phwysig hon, a fydd yn cynyddu bioamrywiaeth o fewn y coetir yn Loggerheads. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

**Dydd Mercher 4 10am – 3pm**
**Moel Famau - Rheolaeth Rhostiroedd**
Helpu i dynnu conwydd newydd o'r rhostir. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (pen uchaf). (SJ 162 606)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales





**Dydd Mercher 4 10am – 3pm**
**Dadorchuddio'r gorffennol yng Nghoed Bell**
Ymunwch â ni i glirio rhedyn ac eithin o amgylch yr Heneb Rhestredig ar ben Coed Bell i'w hen ogoniant. Cwrdd yn y maes parcio bach (ar hyd y ffordd o'r Fynwent) ar Ffordd Gronant, Gronant. (SJ085833)

**Dydd Iau 5ed - 10am – 3pm**
**Gwarchodfa Natur Min y Ffordd – Llangollen**
Helpu i gynnal gwarchodfa natur min y ffordd islaw'r sgarp Eglwyseg godidog, gan greu hafan i flodau gwyllt cynyddol brin a bywyd gwyllt arall. Gan fod nifer y lleoedd parcio yn gyfyngedig, angen cyfarfod ym Maes Parcio Stryd y Farchnad, Llangollen am 10am a byddwn yn teithio i'r safle o fan hyn.

**Dydd Mawrth 10, 10am – 3pm**
**Gwelliannau Llwybr Loggerheads**
Ymunwch â ni i wella'r llwybrau prysur o amgylch y Parc. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.



**Dydd Mercher 11, 10am – 3pm**
**Rheolaeth Rhostiroedd Moel Famau**

Helpu i dynnu conwydd newydd o'r rhostir. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (pen uchaf). (SJ 162 606)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**TDydd Mawrth 17 10am – 3pm**
**Ardal Natur Llangwyfan**

Ymunwch â ni i wella'r coetir a thynnu prysgwydd o'r heneb gofrestredig. Cyfarfod yn y maes parcio uchaf, Coed Llangwyfan ar y ffordd rhwng Llangwyfan a Nannerch. (SJ 139 668)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Mercher 18 10am – 3pm**
**Rhostir Iach**

Gwaith rheoli i dynnu coed bedw a glasbrennau sy'n bygwth y brithwaith anghyffredin o blanhigion rhostir sy'n rhoi i Foel Findeg ei gymeriad unigryw. Cyfarfod rhwng pentref Maeshafn a'r Hen Hostel Ieuenctid. (SJ 205 608)

**Dydd Mercher 18 10am – 3pm**
**Coed Bell – Gwella llwybrau**

Dewch i helpu i adeiladu wal gynnal llwybr i wella hygyrchedd i'r coetir bendigedig hwn. Cwrdd yn y maes parcio bach (ar hyd y ffordd o'r Fynwent) ar Ffordd Gronant. (SJ085833)

### Dydd Mawrth 24, 10am – 3pm Glanhad Blynyddol yn y Loggerheads

Helpwch ni i lanhau'r parc yn barod ar gyfer tymor prysur yr haf. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

### Dydd Mercher 25 10am – 3pm Glanhau ym Moel Famau

Ymunwch â ni i lanhau cyn tymor prysur yr haf. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (pen uchaf). (SJ 162 606)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

### Dydd Gwener 27 Mawrth 10am – 3pm. Pencoed – Creu dolydd blodau gwyllt

Helpu i greu ardal o ddolydd blodau gwyllt ar ymyl Pencoed, creu cynefin ar gyfer peillwyr a phryfetach eraill! Cyfarfod ym mynedfa Bryn Stanley i Bencoed, Dinbych (SJ 047 658)





# Ein Tirlun Darluniadwy

Ers y 1700au, mae pobl wedi bod ar siwrneiau ysbrydoledig drwy Ddyffryn Dyfrdwy, ar hyd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, ar hyd ffordd A5 Telford, Rheilffordd Llangollen a'r Afon Dyfrdwy ac wedi cael eu denu gan y tirlun darluniadwy hwn yn union fel Merched Llangollen.

Nod Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy yw diogelu'r ardal unigryw hon trwy;

- Warchod golygfeydd, treftadaeth a chynefinoedd
- Gwella mynediad
- Ennyn diddordeb cymunedau yn ein tirluniau arbennig
- Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill

Rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion gwirfoddoli ar adfer y glyn ym Mhlas Newydd i ddechrau, sef gardd naturiolaidd Merched Llangollen. Rhaglen 4 blynedd yw hon i adfer yr ardd i'r ffordd y byddai wedi bod pan oedd y Merched yn byw yma rhwng yr 1780au a'r 1830au. Mae'r gwaith adfer yn cynnwys gwella llwybrau, mynedfeydd a chanllawiau, creu gardd fawnog, plannu rhodfa bedw newydd i efelychu'r un a oedd yn bodoli yn ystod cyfnod y Merched yn ogystal â chynllun plannu planhigion naturiolaidd. Byddwn yn dechrau trwy atgyweirio'r waliau cerrig sy'n dymchwel, yna gosod briciau palmant ar y grisiau i'r tŷ haf a chreu platfform cerrig i edrych ar yr olygfa. Bydd yr agweddau hyn o'r prosiect adfer yn ein galluogi i gynnig hyfforddiant arbenigol i wirfoddolwyr gyda hyfforddwr profiadol, gan greu cyfleoedd i bobl newydd ddod i ddysgu rhai sgiliau arbenigol gan helpu i adfer gardd hanesyddol ar yr un pryd.

**Os hoffech wybod mwy am y prosiect Ein Tirlun Darluniadwy, cysylltwch â our.picturesque.landscape@denbighshire.gov.uk neu 01824 706163**

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government